Gweiddi

# Tasg 1

# Bobl bach!

1. Darllenwch y brawddegau isod.
   Ticiwch **Cywir, Anghywir** neu **Ddim yn y darn**.

| | | **Cywir** | **Anghywir** | **Ddim yn y darn** |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae’r gêm yma’n debyg i bêl-droed. | | | |
| 2. | Mae deg person ym mhob tîm fel arfer. | | | |
| 3. | Rhaid dysgu llawer o reolau cyn dechrau chwarae. | | | |
| 4. | Mae’r chwaraewyr yn gwisgo rycsac i chwarae. | | | |
| 5. | Rhaid gwisgo esgidiau chwaraeon i wneud y gamp yma. | | | |
| 6. | Mae’r gamp yma’n ffordd dda o gadw’n heini. | | | |
| 7. | Pan fydd rhywun yn camochri, mae’r tîm arall yn cael cic rydd. | | | |
| 8. | Mae’r chwaraewyr yn chwythu swigod wrth iddyn nhw chwarae. | | | |
| 9. | Rhaid i’r timau sgorio goliau. | | | |
| 10. | Mae Alex yn chwarae pêl-droed mewn sorb dros Gymru. | | | |

2. Beth ydy’ch barn chi am chwarae pêl-droed mewn pêl fawr dryloyw? Rhowch resymau dros eich barn.

Ewch i’r dudalen nesaf.

3. Dychmygwch eich bod chi'n penderfynu dysgu camp newydd eleni.

a. Dewiswch gamp.

b. Chwiliwch am wybodaeth ar y we os ydych chi eisiau dewis camp 'wahanol'.

c. Llenwch y grid ond peidiwch â dangos eich gwaith i'ch partner chi.

| | |
|---|---|
| Beth ydy'r gamp? | |
| Ble mae'n cael ei chwarae (e.e. tu mewn / tu allan / ar faes arbennig ac ati) | |
| Oes angen dillad arbennig?<br>Os oes, pa ddillad? | |
| Sut mae chwarae? | |
| Unrhyw wybodaeth arall? | |

4. a. Rydych chi'n mynd i roi pum cliw i'r grŵp am y gamp, ond peidiwch â'i henwi.

b. Ar ôl gwrando, rhaid i'r grŵp benderfynu beth yw'r gamp.

c. Mae cylchgrawn chwaraeon yn gofyn i chi ysgrifennu darn am y gamp.

Ysgrifennwch ddisgrifiad gan ddefnyddio'r pwyntiau rydych chi wedi eu nodi yn y grid yn 3. uchod ac unrhyw nodiadau eraill sydd gennych chi.